

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid ar nos Fercher 28ain o Fawrth 2018
yn Swyddfa, Parc Menai am 7.00pm.

Agenda

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 07-03-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Ceisiadau Nawdd

- Cais Grwp Ioga Glasinfryn
- Cais Clwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd

Taliadau angen sylw

Cyngor Gwynedd	Torri gwair ychwanegol 17-18
D E Williams	Cysgodfan Bws Rhydygroes a gosod Hysbysfyrddau
Unllais Cymru	Aelodaeth
Gareth Hughes	To y Capel a mainc y Fynwent
Cyflog	Mis 12 Mawrth
HMRC	Mis 12 £90-80
E W Williams	Gofalwraig Hydref 2017 i Mawrth 2018
Gareth Hughes	Tynnu hysbysfwrdd Glasinfryn ei drwsio a'i osod yn porch y Capel

I'w trafod hefyd

Adolygu Rheolau Sefydlog

Prydles canolfan Penrhos / Gamlins

Prydles y Swyddfa

Cofnodion Cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher Mawrth 07^{fed} 2018

Presennol Cyng D W Jones, D Jones-Morris, B Jones, J Pierce B Jones a L James

Clerc Elwyn Jones

Ymddiheuriadau Cyng C E Hughes

Etholwyd Cyng D W Jones i gadeirio gan fod Cyng L James wedi ei dal yn ol mewn traffig

Derbyn cofnodion cyfarfod olaf - Nid oedd cyfarfod wedi ei gynnal ddiwedd Ionawr a'n cyfarfod diwedd Chwefror wedi ei ohirio tan heno oherwydd tywydd garw

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd mantolen ariannol yn dangos yr incwm a gwariant Ionawr a Chwefror. Esbonwyd mae mantolen oedd wedi ei darparu ar gyfer 28ain o Chwefror oedd hon ond nad oedd dim trafodaethau ariannol wedi digwydd ers hynny.

'Roedd £22,512.60 yn y banc ond bod £963.10 wedi ei dalu allan ond heb eu clirio £21,549.50 felly oedd ein sefyllfa ariannol gywir.

Ceisiadau Nawdd

Clwb Ioga Glasinfryn – gofynwyd iddynt arall eirio eu cais gan nad oedd hawl ariannu tuag at gyflog

Clwb Y Garnedd Penrhos Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn cyfrannu £300.00 iddynt eleni

Cyng J Pierce yn datgan buddiant personol ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth

Cyfraniad tuag at dorri fynwent St Cedol Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn cyfrannu £600.00 iddynt eleni gan fod hwn yn achos arbennig

Elusen Ambiwlans Awyr Cymru i Blant – Darllenwyd llythyr cais - Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn cyfrannu £300.00 iddynt eleni

Cyng D Jones-Morris yn datgan buddiant personol ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth

Eisteddfod Dyffryn Ogwen – heb gyflwyno siec

Gan fod y Cyngor wedi cyflwyno siec o £300.00 i'r Eisteddfod ers Tachwedd 2017 a honno byth wedi ei chyflwyno i'r Banc 'roedd y Clerc wedi cysylltu a hwy.

Esbonwyd fod yr Ysg yn meddwl iddi fod wedi cyflwyno y siec i'r Trysorydd ond 'doedd ganddo ef ddim côf o'i derbyn.

Gan y byddai yn ddoeth canslo'r siec wreiddiol ar gost o £10.00 cytunwyd Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn ail anfon siec am £290.00 iddynt.

Gofynnwyd i'r Clerc ddod a chyfanswm cyfraniadau nawdd i'r Cyngor Llawn nos yfory

Taliadau angen sylw

Opus Energy Trydan y Swyddfa - £17.50

Esbonwyd fod y Cwmni yma yn awyddus i drefnu talu debid uniongyrchol Cytunwyd i wneud hynny

J D Gardening Llnau teils y cae chwarae - £120.00

Cyflog Chwefror £363.10

HMRC Mis 11 esbonwyd fod gan y cyngor gredyd o'r union swm oedd yn ddyledus i HMRC mis yma o £90-60. Ni fyddai angen anfon siec y mis yma felly.

PENNANT Y Clerc wedi derbyn cynllun y fynwent newydd ynghyd a anfoneb am £435.00 sef y pris gytunwyd arno. **Cymeradwyo talu**